




Overview & Scrutiny

Annual Report

Adroddiad Blynyddol  
Trosolwg a Chraffu **2016/17**



# Cynnwys

## PENNAWD

## TUDALEN RHIF

<b>Rhagair</b>	<b>3</b>
Rhagymadrodd – gan y Pwyllgor Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd	<b>4</b>
Arsylwadau gan Arweinydd y Cyngor	<b>5</b>
Arsylwadau gan y Prif Weithredwr	<b>6</b>
Defnyddio proses Galw i mewn ar gyfer penderfyniad y Cabinet a sut mae'r weithdrefn yn cael ei gweithredu	<b>7 - 9</b>
Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymuned a Menter	<b>10 - 11</b>
Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol	<b>12 - 14</b>
Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid	<b>15 - 17</b>
Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd	<b>18 - 19</b>
Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol	<b>20 - 21</b>
Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd	<b>22 - 24</b>
Atodiad 1 – Aelodaeth Pwyllgorau, pynciau a gaiff eu cwmpasu a gwybodaeth am weithgareddau	<b>25 - 30</b>
Atodiad 2 – Cymorth Swyddogion Trosolwg a Chraffu	<b>31</b>

## **RHAGAIR**

Gwnaeth y Pwyllgor Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd ystyried a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Hydref. Awgrymwyd byddai'n ddefnyddiol atgoffa Aelodau sut gallant roi eitem ar raglen Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Yn Sir y Fflint, roeddem yn gweithredu protocol lleol, lle gallai unrhyw Aelod o'r Cyngor ofyn i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ystyried eitem benodol: roedd hyn yn ychwanegol at hawliau statudol aelod o bwyllgor Trosolwg a Chraffu. Gwnaeth Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 roi arfer da Sir y Fflint yn statud fel adran 63 y Mesur.

Gall unrhyw Aelod ofyn i eitem gael ei hystyried gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu drwy gyflwyno cais ysgrifenedig i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ([robert.robins@flintshire.gov.uk](mailto:robert.robins@flintshire.gov.uk)). Yna byddai'r cais yn cael ei atgyfeirio at y pwyllgor priodol yn ei gyfarfod nesaf, i'w ystyried yn ystod yr Eitem Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

## **Rhagymadrodd gan y Pwyllgor Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd**

Mae'r rhagymadrodd i Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu 2016/17 yn wahanol i'r dull arferol. Y tro hwn, mae'n addas ein bod yn talu teyrnged i'n cadeirydd pwyllgor hiraf ei wasanaeth, y Cyngorydd Ron Hampson, a fu farw ym mis Awst.

Roedd Ron wedi bod yn aelod o Sir y Fflint ers 1995, ac yn ystod y 1990au, gwasanaethodd fel is-gadeirydd y Pwyllgor Datblygu. Gyda chyflwyno 'trefniadau gweithrediaeth' yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol 2000, daeth yn rhan o Drosolwg a Chraffu.

Fel mae'r tabl isod yn dangos, roedd ganddo swyddi cyfrifol ym maes Trosolwg a Chraffu ers ei ddechrau, ac roedd hefyd wedi gwasanaethau ar y Pwyllgor Cydlynu a'i ragflenydd, y Corff Cydlynu ers 2000.

<b>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu</b>	<b>Swydd</b>	<b>Blwyddyn</b>
Gwerth Gorau	Is-Gadeirydd	2000/01
Gwerth Gorau	Is-Gadeirydd	2001/2
Polisi a Rheolaeth Gorfforaethol	Is-Gadeirydd	2002/3
Polisi a Rheolaeth Gorfforaethol	Is-Gadeirydd	2003/4
Polisi a Rheolaeth Gorfforaethol	Cadeirydd	2004/5
Rheolaeth Gorfforaethol	Cadeirydd	2005/6
Cymunedau a Thai	Is-Gadeirydd	2006/7
Cymunedau a Thai	Is-Gadeirydd	2007/8
Cymunedau a Thai	Cadeirydd	2008/9
Cymunedau a Thai	Cadeirydd	2009/10
Tai	Cadeirydd	2010/11
Tai	Cadeirydd	2011/12
Tai	Cadeirydd	2012/13
Tai	Cadeirydd	2013/14
Tai	Cadeirydd	2014/15
Cymuned a Menter	Cadeirydd	2015/16
Cymuned a Menter	Cadeirydd	2016/17

Mae colled drist ar ôl Ron fel Aelod o'r Cyngor a chraffwr arweiniol. Roedd Cyngorwyr a chydweithwyr sy'n swyddogion fel ei gilydd yn meddwl llawer iawn ohono, a bydd hynny'n parhau.

## TROSOLWG A CHRAFFU – SAFBWyNT Y CABINET



Yn Sir y Fflint, rhan sylfaenol o ddiwylliant y Cyngor yw cred mewn angen am swyddogaeth Trosolwg a Chraffu effeithiol ac effeithlon fel rhan annatod o lywodraethu da.

Mae'r Cabinet yn cael ei ddal i gyfrif gan y chwe phwyllgor Trosolwg a Chraffu sydd gennym, ond yr un mor bwysig, mae Aelodau'r pwyllgorau hynny yn darparu eu cefnogaeth i'n trefniadau gweithredol fel cyfeillion beirniadol a heriol.

Mae pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Cyngor yn ymgysylltu mewn craffu cyn gwneud penderfyniadau: mae rhoi sylwadau am adroddiadau a pholisïau sy'n dod i'r amlwg cyn iddynt gael eu hystyried yn ffurfiol gan y Cabinet yn amhrisiadwy i ni. Fel hyn, gall y Cabinet fanteisio ar wybodaeth a doethineb cyfun trawstoriad ehangach o aelodaeth y Cyngor.

Yn ystod blwyddyn olaf bywyd Cyngor 2012-17, rydym wedi gweld y pwyllgorau Trosolwg a Chraffu wedi'u hadolygu a'u hadnewyddu mewn gweithrediad. Maent wedi dangos bod yr amser a'r ymdrech rydym wedi'i roi i mewn i'r adolygiad wedi talu. Bydd y strwythur sydd gennym ar waith nawr yn cynnig man dechrau da i'r cyngor newydd ar gyfer ei lywodraethu corfforaethol.

Yn fy swydd fel Arweinydd a deilydd portffolio cyllid, mae fy mherthynas waith agosaf gyda'r pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol. Mae'r pwyllgor hwnnw'n cyfarfod ar y dydd lau cyn y Cabinet ac mae'n rhoi ystyriaeth a sylwadau ar yr adroddiadau monitro'r gyllideb misol. Os oes materion o bryder, cânt eu hamlygu a thynnir sylw'r Cabinet atynt.

Yn draddodiadol, byddaf yn dod â'r darn 'safbwynt y Cabinet' yn yr Adroddiad Blyneddol Trosolwg a Chraffu i ben drwy ddiolch i bawb sy'n rhan o Drosolwg a Chraffu yma; p'un a ydynt yn Gadeiryddion ac Aelodau Pwyllgorau; Aelodau'r Cabinet a Phrif swyddogion ac uwch swyddogion sy'n mynychu fel cyfranwyr yn y cyfarfodydd, yn ogystal â'r staff cymorth. Hoffwn fynegi fy niolch parhaus i bawb sy'n rhan: rydym yn dal i roi llawer o ddibyniaeth ar bob un ohonoch yn eich rolau, i sicrhau bod Trosolwg a Chraffu, ac felly ein strwythur llywodraethu cyfan yn gweithio'n effeithiol.

**Y Cynghorydd Aaron Shotton,**  
Arweinydd y Cyngor

## **YR ANGEN AM DROSOLWG A CHRAFFU EFFEITHIOL - COLIN EVERETT, PRIF WEITHREDWR**



O'n rhaglen gynefino 2017, bydd Aelodau newydd a rhai sy'n dychwelyd yn ymwybodol bod Trosolwg a Chraffu, fel rhan o'n trefniadau gweithrediaeth, wedi bod yn gweithredu yn Sir y Fflint ers 2002. Mae hanes blaenorol da o gyflawniad, ac mae'n glir bod Trosolwg a Chraffu wedi gwneud gwahaniaeth i sut rydym yn gwneud pethau: mae'r manteision i'r sefydliad o fod â chyfaill beirniadol cadarn ac effeithiol i ddarparu her i'r Cabinet wedi gwella ansawdd gwneud penderfyniadau.

Mae'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2016-17 yn rhoi arwydd o weithgarwch craffu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; blwyddyn arall lle roeddem yn wynebu toriadau digynsail. Bydd Aelodau yn ymwybodol eisoes o'r gweithdai rydym wedi'u cynnal ar ein Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r Gyllideb y byddwn yn wynebu heriau mawr tebyg yr hydref hwn eto.

Ni fu yr angen i holl aelodau Sir y Fflint, boed yn Aelodau'r Cabinet, y chwe phwyllgor Trosolwg a Chraffu neu'r pwyllgorau rheoleiddio i chwarae rhan weithredol o ran ceisio cyflawni'r toriadau pellach i'r gyllideb erioed mor bwysig.

Rwy'n ffyddiog y bydd ein hawydd i ddiogelu'r gwasanaethau a'r cyfleusterau cymunedol lleol sy'n hanfodol i fywyd cymunedol wrth wraidd pob trafodaeth. Y llynedd, chwaraeodd cymunedau lleol eu rhan o ran camu ymlaen i weithio gyda ni mewn menter newydd fel Trosglwyddo Asedau Cymunedol a Modelau Darparu Amgen.

Bydd y flwyddyn nesaf, blwyddyn gyntaf cyngor newydd yn heriol. Rhaid i ni gynnal ein cryfder o ran pwrpas er mwyn gallu parhau i foderneiddio'r Cyngor a chanfod ffyrdd gwell a mwy effeithlon o wneud pethau wrth gynnal ein safle fel Cyngor blaengar, wedi'i lywodraethu'n dda ac sy'n perfformio'n dda.

**Colin Everett,**  
Prif Weithredwr

## **Defnyddio proses Galw i mewn ar gyfer penderfyniad y Cabinet a sut mae'r weithdrefn yn cael ei gweithredu.**

### **1. Cefndir**

Yn dilyn cais gan Aelodau, roedd yr Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu ar gyfer 2015/16 yn cynnwys darn am ddefnyddio proses Galw i Mewn. Gan fod dau achos o Alw i Mewn yn ystod 2016/17, ac oherwydd y cyfeiriwyd at ddefnyddio'r broses galw i mewn yn ystod y Rhaglen Gynefino, penderfynwyd ei bod yn ddefnyddiol cynnwys manylion am hyn yn yr adroddiad blynyddol hwn.

### **2. Y Trefniadau**

Mae'r trefniadau ar gyfer galw penderfyniad i mewn i'w gweld ym mharagraff 16 Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu sydd wedi'u cynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Mae'r awdurdod cyfreithiol yn deillio o adran 21 (3) Deddf Llywodraeth Leol 2000.

Mae'r gallu i alw penderfyniad y Cabinet i mewn yn bŵer sylweddol i aelodau anweithredol. Nid yw'n rhywbeth y dylid rhoi ystyriaeth iddo oni bai nad oes dewis amgen: os caiff y pŵer ei or-ddefnyddio, neu ei ddefnyddio mewn ffordd y gellid ei alw'n ofer, byddai ei arwyddocâd neu bwysigrwydd yn cael ei gollu.

### **3. Penderfyniadau'r Cabinet**

Yn dilyn cyfarfod o'r Cabinet, caiff y cofnod o benderfyniadau a wnaed ei gyhoeddi o fewn deuddydd. Mae copïau ar gael yn Neuadd y Sir, a chânt eu hanfon i bob Aelod o'r Cyngor Sir.

Mae'r cofnod penderfyniadau yn rhoi'r dyddiad cyhoeddi ac yn nodi y bydd y penderfyniad yn dod i rym, a gellir ei weithredu wedyn, ar ôl pum diwrnod gwaith ar ôl cyhoeddi'r penderfyniad, oni bai y caiff ei alw i mewn cyn pen y pum diwrnod gwaith hwnnw ar ôl cyhoeddi'r penderfyniad.

### **4. Galw Penderfyniad i mewn**

Os bydd y Prif Swyddog (Llywodraethu) neu'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn cael cais gan Gadeirydd pwyllgor Trosolwg a Chraffu neu o leiaf pedwar aelod o'r Cyngor (i osgoi amheuaeth, dylai cais o'r fath fod ar ffurflen rhybudd o alw penderfyniad i mewn, gan nodi'r rheswm dros alw'r penderfyniad i mewn, a'i lofnodi gan bob parti), caiff cyfarfod galw i mewn ei drefnu.

Bydd naill ai'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd neu un o'r Hwyluswyr Trosolwg a Chraffu yn rhoi gwybod i'r rhai sy'n gwneud y penderfyniad (yr aelodau Cabinet perthnasol a'r Prif Swyddogion) bod y penderfyniad wedi'i alw i mewn, ac yna'n trefnu cyfarfod o'r pwyllgor priodol o fewn pedwar diwrnod gwaith o'r penderfyniad i'w alw i mewn.

## **5. Y Cyfarfod Galw i Mewn**

Yn ôl eu natur, mae cyfarfodydd galw i mewn yn tueddu i gael eu cynnal ar fyr rybudd (h.y. o fewn saith diwrnod gwaith o'r penderfyniad i alw i mewn) ac yn gyffredinol yr unig eitem i gael ei thrafod fyddai delio â'r penderfyniad i alw i mewn. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, mae'n hwylus ystyried penderfyniad i alw i mewn, mewn cyfarfod sydd eisoes wedi'i drefnu.

Mae gweithdrefn a awgrymir ar gyfer delio â phenderfyniad i alw i mewn. Y bwriad yw sicrhau bod y cyfarfod mor syml a thryloyw ag sy'n bosibl.

Mae'r Cadeirydd yn gofyn i'r swyddog cynghori roi amlinelliad byr o'r weithdrefn galw i mewn i Aelodau'r Pwyllgor, gan egluro'r terfynau amser o fewn y Cyfansoddiad.

Yna caiff y rhai a ddechreuodd y broses galw i mewn (y rhai a lofnododd y ffurflen galw i mewn) eu gwahodd i egluro eu rhesymau dros alw'r penderfyniad i mewn. Gall hyn fod drwy lefarydd, neu drwy gyfraniadau gan sawl Aelod.

Yna caiff y rhai sy'n gwneud penderfyniadau (yr Aelodau Cabinet perthnasol a Phrif/uwch swyddogion) gyfle i ymateb i'r materion a godwyd gan y rhai a ddechreuodd y broses a darparu rhagor o wybodaeth os ydynt yn credu y bydd yn cynorthwyo dealltwriaeth y pwyllgor o'r penderfyniad.

Pan fydd hyn wedi digwydd, mae'r Cadeirydd yn gwahodd cwestiynau gan Aelodau, a bydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'r rhai a ddechreuodd y broses galw i mewn yn cael eu gwahodd i ymateb fel bo'n briodol. Ar ddiwedd cwestiynau'r Aelodau, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r rhai a ddechreuodd y broses galw i mewn a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau grynhoi eu hachosion.

Yna bydd y swyddog cynghori yn egluro opsiynau'r Pwyllgor ar gyfer penderfyniad, fel a nodir yn y Cyfansoddiad. Dylai'r penderfyniad gynnwys un o'r pedwar opsiwn a roddir isod.

### Opsiwn 1

Bodddhad gyda'r eglurhad a gafwyd. Gellir gweithredu'r penderfyniad yn syth.

### Opsiwn 2

'Nid yw'n bryder bellach', derbynnir yr eglurhad, ond ni chaiff y penderfyniad ei gymeradwyo gan y pwyllgor. Gellir gweithredu'r penderfyniad yn syth.

### Opsiwn 3

Mae pryder o hyd am y materion: caiff y penderfyniad ei gyfeirio'n ôl i'r Cabinet i'w ailystyried, gan nodi'r rhesymau pam. Rhaid i'r Cabinet ailystyried y penderfyniad yn y cyfarfod cyntaf a drefnir, gan ddiwygio'r penderfyniad neu beidio, cyn mabwysiadu penderfyniad terfynol.

### Opsiwn 4



Mae pryder o hyd am y materion: y penderfyniad yw cyfeirio'r mater at y Cyngor llawn. Os yw'n amlwg bod y Pwyllgor o blaid dilyn y dull hwn, bydd y swyddog cynghori yn atgoffa'r Pwyllgor bod 'swyddogaethau gweithrediaeth' o fewn cylch gwaith y Cabinet yn unig. Mae'r Cyngor yn gallu ystyried y mater, ond nid newid y penderfyniad: gall ddim ond argymhell i'r Cabinet bod y penderfyniad yn cael ei ailystyried. Os caiff ei gyfeirio at y Cyngor llawn, rhaid i'r cyfarfod gael ei gynnal o fewn 10 diwrnod gwaith oni bai bod cyfarfod wedi'i drefnu o'r Cyngor llawn, lle gall y mater gael ei ystyried cyn pen 5 diwrnod gwaith arall.

## **7. Adrodd yn Ôl**

Ar ôl cyfarfod galw i mewn, mae adroddiad yn ôl i gyfarfod nesaf y Cabinet bob amser, i egluro'r penderfyniad mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi'i wneud.

## **8. Galw i mewn yn ystod 2016/17**

Yn ystod y flwyddyn ddinesig ddiwethaf, cafodd dau benderfyniad gan y Cabinet eu galw i mewn. Y rhain oedd:

Galw i mewn penderfyniad y Cabinet 3255, Moderneiddio Ysgolion – Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2015 – Ysgol Maes Edwin, Bryn-y-garreg. Ystyriwyd hyn gan y Cyngor ar 10 Mai 2016. Hwn oedd y tro cyntaf i benderfyniad galw i mewn gael ystyriaeth gan y Cyngor, yn hytrach na bod y penderfyniad yn cael ei dderbyn fel un a ellir ei weithredu neu ei gyfeirio'n ôl i'r Cabinet. Gwrandawyd ar yr achos hwn o alw i mewn gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuentid yn wreiddiol mewn cyfarfod ar 28 Ebrill.

Ni chododd y Cyngor wrthwynebiad i benderfyniad y Cabinet i gau Ysgol Maes Edwin o 31 Awst 2016.

Ar 8 Mawrth 2017, ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymuned a Menter benderfyniad rhif 3358 y Cabinet, sef cynllun Glannau Dyfrdwy, a gafodd ei alw i mewn. Roedd y rhai a lofnododd yn awyddus i sicrhau bod buddsoddiad yn cael ei wasgaru'n briodol ar draws Sir y Fflint a mynegwyd pryderon am y broses ymgynghori o ran datblygu'r Cynllun. Yna gofynnir i'r pwyllgor gynnig ac eilio un o'r opsiynau. Yna cynhelir pleidlais o ran y cynnig. Os caiff ei gymeradwyo, dyna benderfyniad y pwyllgor, os yw'n methu, caiff cynnig (cynigon) eraill eu ceisio nes bod pleidlais fwyafrif o blaid un o'r opsiynau.

Roedd hwn yn ddadl ddiddorol a oedd yn annog nifer uchel o gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor a oedd yn chwilio am sicrwydd na fyddai Cynllun Glannau Dyfrdwy yn tynnu buddsoddiad a manteision o Ganol Trefi ar draws Sir y Fflint.

Yn dilyn y drafodaeth, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr eglurhad ond nid eu cymeradwyo.

## **PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNED A MENTER**



**Cadeirydd  
Y Cyngorydd Ron Hampson**



**Is-Gadeirydd  
Y Cyngorydd George Hardcastle**

Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gynnal craffu cyn gwneud penderfyniadau ac mae wedi bod yn rhan o ymgynghoriad ar nifer o fentrau, gan gynnwys, Cymeradwyo Benthycyca i Gartrefi Newydd i ariannu Datblygiad 62 o Gartrefi Newydd Fforddiadwy ar The Walks, y Fflint; Polisi Gostyngiad Dewisol ar y Dreth; Polisi Rhyddhad Ardrethi Caledi; Prynu Eiddo Hawl i Brynu'r Cyngor yn Ôl a Pholisi Taliadau Adbryniad Ecwiti a Rennir a Symiau Cymudol.

Ym mis Tachwedd 2016, cymerodd y Pwyllgor ran mewn taith o ddatblygiad Custom House Lane yng Nghei Connah hefyd, yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2016. Rhoddwyd cyfle i Aelodau gerdded o amgylch yr eiddo Cyngor a oedd newydd eu hadeiladu ac roeddent yn falch iawn gyda'r datblygiad a'r ystyriaeth a roddwyd i ddarparu cartrefi o ansawdd uchel i denantiaid Sir y Fflint.

Isod ceir crynodeb o rai o'r pynciau mae'r pwyllgor wedi'u hystyried dros y 12 mis diwethaf.

### **Gweledigaeth a Strategaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru**

Ym mis Hydref 2016, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn nodi uchelgeisiau rhanbarthol ar ddatblygiad isadeiledd, sgiliau a chyflogaeth a thwf busnes. Cafodd y Pwyllgor brosbectws 'Growth Track 360' hefyd ar welliannau rheilffyrdd ar draws ardal Gogledd Cymru a Mersi a'r Ddyfrdwy, a oedd wedi'i ddatblygu gydag amrywiaeth o bartneriaid allweddol.

Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r Weledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru a'r buddion i ddiwydiant lleol ond amlinellodd angen am seilwaith gwell a sicrhau bod pob ardal o'r Sir yn cael buddsoddiad i sicrhau bod pobl ifanc i gyd yn gallu cael mynediad i gyflogaeth. Gofynnodd y Pwyllgor am weithdy byr hefyd i amlinellu'r meysydd allweddol o waith sy'n cael ei wneud gan y Cyngor i gynnal llwyddiannau economaidd Sir y Fflint. Roedd y maes craffu hwn yn eithaf dieithr i nifer o Aelodau'r Pwyllgor ac felly teimlwyd y byddai gweithdy yn cynorthwyo'r Pwyllgor i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r swyddogaethau adfywio.

## **Prynu Eiddo Hawl i Brynu'r Cyngor yn Ôl**

Ym mis Rhagfyr 2016, croesawodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn amlinellu dull y Cyngor at fynd ati'n strategol i brynu eiddo a oedd yn dod ar gael ar y farchnad agored a chynigiodd bolisi newydd gan gynnwys yr opsiwn i brynu hen eiddo'r Cyngor a oedd wedi eu gwerthu dan y Cynllun Hawl i Brynu. Roeddwn yn falch iawn o fod yn ystyried yr adroddiad hwn a chafodd cyflwyno'r Polisi newydd ei gymeradwyo gan y Pwyllgor, sydd wedi bod yn trafod opsiynau ers peth amser i gynorthwyo gyda'r diffyg o ran cartrefi sydd ar gael ar draws y Sir.

## **Diwygio Lles – Cyflwyno Credyd Cynhwysol**


Mae'r Pwyllgor wedi parhau drwy gydol y flwyddyn i gael adroddiadau diweddarau rheolaidd ar effaith Diwygio Lles i geisio sicrwydd bod y camau gweithredu a gymerir gan y Cyngor yn helpu a chefnogi tenantiaid Sir y Fflint.

Fel Cadeirydd, rwyf wedi bod yn awyddus i sicrhau ein bod yn parhau i gael y diweddariadau rheolaidd sydd wedi caniatáu i'r Pwyllgor fonitro lefel yr ôl-ddyledion rhent a hefyd gadw'n gyfredol o ran gwybodaeth a ddarperir i denantiaid Sir y Fflint fel bod Aelodau'n gallu cynorthwyo i gyfeirio tenantiaid at y gefnogaeth fwyaf priodol sydd ar gael.

### **Y Cynghorydd Ron Hampson**

Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Tai

## **PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**



**Cadeirydd  
Y Cynghorydd Clive Carver**



**Is-Gadeirydd  
Y Cynghorydd Arnold Woolley**

Yn dilyn yr adolygiad strwythurol o Drosolwg a Chraffu, mae cylch gwaith y Pwyllgor wedi'i estyn i gynnwys gweithio mewn partneriaeth ac mae wedi dod yn bwyllgor craffu trosedd ac anhrefn statudol.

### **Monitro Cyllideb**

Mae hyn bob amser wedi bod yn un o nodweddion amlwg gwaith y Pwyllgor: yn ein cyfarfodydd misol, rydym yn ystyried yr adroddiadau monitro'r gyllideb cyn iddynt fynd i'r Cabinet yr wythnos a ganlyn. Pan fyddwn yn rhoi arsylwadau neu argymhellion, byddant yn cael eu hadrodd yn ffurfiol i'r Cabinet fel rhan o gyflwyno'r adroddiad. Rydym hefyd yn cyfeirio eitemau at un o'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu eraill os byddwn yn teimlo bod eitem o fewn ein cylch gwaith, fel gorrariant mewn gwasanaeth, angen sylw pellach.

### **Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig**

Gan ystyried pwysigrwydd y mater hwn, adroddwyd arno ym mhob cyfarfod yn ystod yr hydref, gydag adroddiad ar bapur ym mis Mai 2016 a diweddariadau llafar mewn cyfarfodydd eraill. Mae defnyddio adroddiadau llafar ar bynciau o'r fath yn golygu bod y Pwyllgor yn cael y wybodaeth fwyaf diweddar, sy'n amhrisiadwy.

### **Ymgynghoriad y gyllideb**

Mae'r dull o ran ymgynghoriad y gyllideb wedi gwella o'r naill flwyddyn i'r llall, gan ddarparu ar gyfer rhagor o ymgysylltu gan Aelodau a thryloywder yn y broses.

Ym mis Medi, daeth Cyllideb Refeniw Cronfa'r Cyngor 2017/18 Cam Un i'r Pwyllgor.

Cam 2 – daeth Cyllideb Cronfa'r Cyngor 2017/18 i gyfarfod Arbennig y Pwyllgor ar 30 Tachwedd

Ym mis Ionawr, cafodd y cyfarfod Gyllideb adroddiadau ar Adroddiad Cyllideb Cronfa'r Cyngor 2017/18 – Rhan 3 Strategaeth Gau a Datblygu Rhaglen Gyfalaf 2017/18 i 2019/20

Cynhaliodd Adnoddau Corfforaethol, fel y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Arweiniol ar gyfer materion cyllid ac adnoddau gyfarfodydd 'Pob Aelod', sy'n sicrhau bod yr Aelodau nad ydynt ar Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar hyn o bryd yn gallu cymryd rhan ystyrlon yn y broses ymgynghoriad y gyllideb.

### **Materion Trosedd ac Anhrefn**

Gan gyflawni ein cyfrifoldebau fel pwyllgor trosedd ac anhrefn statudol y Cyngor dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 a Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn (Trosolwg a Chraffu) 2009, gwnaethom gynnal tri chyfarfod lle cafodd materion trosedd ac anhrefn eu hystyried. Y cyntaf oedd Adroddiad Blynyddol ac adolygiad Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. Ym mis Rhagfyr rhoddodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Mr Arfon Jones, gyflwyniad, ac atebodd gwestiynau gan Aelodau. Cynhaliwyd y trydydd ym mis Mawrth ac roedd yn cysylltu i mewn i'r ail gyfarfod gyda chyflwyniad ar Droseddau Seibr gan y Sarsiant Peter Jones o Uned Troseddau Seibr Gogledd Cymru. Roedd y cyflwyniadau hyn yn amhrisiadwy i ddealltwriaeth y Pwyllgor o'r materion.

### **Craffu allanol**

Ym mis Tachwedd, mynychodd Gwasanaeth ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru y Pwyllgor i ddarparu cyflwyniad ar y ddogfen ymgynghori gyhoeddus, 'Gwasanaethau Tân ac Achub Fforddiadwy ar gyfer Gogledd Cymru'. Roedd y cyflwyniad hwn yn darparu gwybodaeth fanwl i'r siroedd sy'n rhan o'r Awdurdod Tân ac Achub, y gwasanaethau maen nhw'n eu darparu, costau, ac roedd yn amlinellu'r pedwar amcan strategol ar gyfer 2017-18. Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn cytuno y dylid cefnogi'r pedwar amcan strategol arfaethedig yn y ddogfen ymgynghori, gyda'r amod bod rhagor o eglurhad ar y meddwl tu ôl i Amcan 4 'Edrych sut gallwn wneud mwy o bethau ar gyfer ein cymunedau'.

### **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Sir y Fflint**

Mae BGC Sir y Fflint yn cynnwys uwch arweinwyr o nifer o sefydliadau cyhoeddus a gwirfoddol. Mae'r Bwrdd yn cynnwys aelodau statudol (h.y. wedi eu penodi drwy gyfraith) ac aelodau wedi eu gwahodd fel y rhestrir isod. Nodir aelodau statudol gyda \*:

- Cyngor Sir y Fflint\*
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr\*
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru\*
- Cyfoeth Naturiol Cymru\*
- Heddlu Gogledd Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (Cymru)
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
- Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint
- Coleg Cambria
- Prifysgol Glyndŵr
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Llywodraeth Cymru

Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor gefnogi rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint, cefnogi'r blaenoriaethau ar gyfer 2016/17 a'r gwaith peilot sy'n cael ei wneud o ran system rheoli perfformiad CAMMS.

**Y Cyngorydd Clive Carver**

Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol

## **PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG AC IEUENCTID**



**Cadeirydd  
Y Cynghorydd Ian Roberts**



**Is-Gadeirydd  
Mr. David Hytch**

Yn dilyn yr adolygiad o Gylch Gorchwyl Trosolwg a Chraffu, mae'r Pwyllgor wedi parhau i ganolbwyntio ar faterion Gwasanaeth Addysg ac Ieuencid yn unig. Mae'r Pwyllgor wedi cael diweddariadau rheolaidd ar y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion yn dilyn ei ystyriaeth helaeth o gynigion ar gyfer Ysgol Uwchradd John Summers, Ysgol Maes Edwin ac Ysgol Llanfynydd a bydd yn parhau i fonitro trefniadau pontio yn dilyn cau'r ysgolion.

Mae'r Pwyllgor wedi cynnal nifer o'i gyfarfodydd Pwyllgor y tu allan i Neuadd y Sir, gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Ysgol Treffynnon, Coleg Cambria ac Ysgol Uwchradd Penarlâg. Roedd y Pwyllgor yn falch iawn o allu cael taith o amgylch Ysgol Treffynnon sydd newydd ei hadeiladu, Chweched Dosbarth Glannau Dyfrdwy yng Ngholeg Cambria a chael pryd ysgol yn Ysgol Uwchradd Penarlâg cyn dechrau cyfarfod y Pwyllgor.

Isod ceir crynodeb o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor dros y 12 mis diwethaf:-

### **Gwasanaeth Effeithlonrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE)**

Ym mis Gorffennaf 2016, cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Ashely Jones, Prif Swyddog, Gwasanaeth Effeithlonrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) ar y gwasanaeth ar gyfer Gogledd Cymru. Roedd y Pwyllgor yn croesawu'r cyflwyniad oherwydd bod nifer o bryderon wedi'u codi o ran gwelliannau ysgol ar gyfer plant a oedd yn cael pryddau ysgol a sut roedd ymyriadau gan GwE yn cael eu rheoli. Gwnaeth y Pwyllgor argymhell cael diweddariad pellach ar ddatblygiad a darpariaeth dwy raglen graidd integredig GwE – y Rhaglen Her a Chefnogaeth a'r Rhaglen Datblygiad.

Ym mis Mawrth 2017, cafodd y Pwyllgor adroddiad ar y rhaglenni craidd a gwahoddwyd yr Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth a'r Cynghorydd Cynorthwyol Her a Chefnogaeth i'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad. Gofynnodd y Pwyllgor nifer o gwestiynau heriol a chadarn am y cynnydd a wneir mewn ysgolion ar draws Sir y Fflint ers cyflwyno GwE ac am bwysigrwydd cynnal parhad Ymgynghorwyr Her mewn ysgolion. Roedd y cyfarfod yn hynod o gadarnhaol o ran craffu ar GwE i sicrhau'r canlyniadau gorau i blant ar draws Sir y Fflint.

Bydd y Pwyllgor yn parhau i graffu a chael diweddariad rheolaidd gan GwE wrth symud ymlaen a gyda ffocws penodol ar addysg uwchradd.

## **Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn**

Ym mis Tachwedd 2016, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ar y broses ar gyfer Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn a diweddariad ar yr hyfforddiant a gynigir i baratoi'r ysgolion a'r unedau Atgyfeirio disgyblion yn Sir y Fflint. Roedd y Pwyllgor yn falch o gael Rachel Molyneux, Pennaeth Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair a Christine Wineyard, Athrawes mewn Gofal o'r Ganolfan Ddysgu (Uned Cyfeirio Disgyblion) yn bresennol i ddarparu trosolwg manwl o sut roedd Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn yn cael ei ddefnyddio yn yr ystafell ddosbarth. Roedd y Pwyllgor yn meddwl bod hyn yn hynod addysgiadol a mynegodd ei gefnogaeth ar gyfer y fenter.

Penderfynodd y Pwyllgor bod Aelodau yn parhau i hyrwyddo'r defnydd o Gynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn drwy eu cysylltiadau gydag ysgolion a'r unedau cyfeirio disgyblion yn y portffolio.

## **Gwasanaeth Prydau Ysgol**

Ym mis Rhagfyr 2016, cynhaliodd y Pwyllgor ei gyfarfod yn Ysgol Uwchradd Penarlâg. Roedd y Pwyllgor am roi ystyriaeth i adroddiad am y Gwasanaeth Prydau Ysgol a rhoddwyd cyfle i Aelodau a Swyddogion fwynhau pryd ysgol tebyg i'r rhai a gynigiwyd i'r plant ysgol yn gynharach yn y diwrnod a diolchwyd i'r staff arlwygo am y cyfle hwn.

Cyn dechrau'r cyfarfod, rhoddodd tri disgybl o Gyngor yr Ysgol gyflwyniad byr am eu barn am y Gwasanaeth Prydau Ysgol yn dilyn arolwg roeddent wedi'i gynnal gyda phlant ysgol eraill. Roedd hyn yn ddiddorol iawn ac ar ran y Pwyllgor, ysgrifennais at y disgyblion, ar ôl y cyfarfod, i ddiolch iddynt am gyflwyniad mor addysgiadol.

Yn dilyn ystyriaeth o'r adroddiad Gwasanaeth Prydau Ysgol, gwnaeth y pwyllgor gefnogi creu Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol ar gyfer Gwasanaethau Arlwygo a Glanhau. Byddai gwaith monitro parhaus o ran hyn yn dod dan gylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol.

## **Diffyg Gweithlu Addysg Medrus**

Ym mis Chwefror 2017, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ar argaeledd staff medrus addas i swyddi mewn ysgolion a'r heriau o ran recriwtio i swyddi gwag.

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor yn dilyn cais gan y Cynghorydd David Mackie mewn cyfarfod blaenorol. Roedd yr adroddiad yn nodi adborth gan nifer fach o ysgolion ar draws Sir y Fflint a oedd yn amlygu anawsterau o ran recriwtio athrawon arbenigol mewn pynciau craidd. Yn ystod y drafodaeth, codwyd nifer o bryderon o ran yr angen am ddull mesuredig i gyflwyno newidiadau cwricwlwm, y costau sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu staff addysgu dros dro a heriau o ran cadw athrawon.



Gofynnodd y Pwyllgor i'r Hwylusydd baratoi llythyr at Mrs. Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn Llywodraeth Cymru, ar ran y Pwyllgor, i ofyn am adnoddau ychwanegol i ysgolion yng Nghymru er mwyn cyrraedd y nodau sylweddol sy'n cael eu gosod ac i adlewyrchu'r materion a gaiff eu codi gan y Pwyllgor. Daeth ymateb i law a bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro'r her hon.

**Y Cyngorydd Ian Roberts**

Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid

## **PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU YR AMGYLCHEDD**



**Cadeirydd  
Y Cyngorydd Raymond Hughes**



**Is-Gadeirydd  
Y Cyngorydd David Evans**

Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd wedi cael blwyddyn brysur arall wrth graffu ar amrywiaeth eang o bynciau fel a restrir yn Atodiad 1 yr adroddiad. Rydym wedi parhau i fod yn rhagweithiol wrth wneud gwaith craffu cyn gwneud penderfyniadau cyn i benderfyniadau allweddol gael eu gwneud gan y Cabinet, wedi'u sbarduno gan doriadau sylweddol i gyllidebau ar draws yr awdurdod a'r penderfyniadau anodd parhaus ar flaenoriaethau ariannu.

Yng nghyfarfod mis Mai, cawsom adroddiad i ystyried darpariaeth safleoedd Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref yn Sir y Fflint yn y dyfodol ar ôl cyhoeddi adolygiad Llywodraeth Cymru. Gwnaeth y Pwyllgor herio canfyddiadau'r adolygiad a ddaeth i'r casgliad mai'r datrysiad gorau posibl i Sir y Fflint fyddai dim ond tri safle Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref, gyda phob safle yn cynnig mynediad da a chyfleusterau ailgylchu gwych. Gwnaeth y Pwyllgor bwysleisio'r angen am ragor o ddarpariaeth leol a chytunodd yr Aelod Cabinet Gwastraff i ystyried opsiynau eraill, gan gynnwys opsiwn a gyflwynwyd gan y Cyngorydd David Evans, ein Is-Gadeirydd, a gynigiodd dau uwch safle ychwanegol. Cawsom adroddiad pellach yng nghyfarfod mis Gorffennaf i roi diweddariad i'r Pwyllgor am gynnydd a wnaed gyda'r adolygiad a gofynnwyd am adroddiad llawn ar y lleoliad dewisol a gosodiadau safle unigol yn yr hydref.

Ym mis Hydref, gwnaethom gynnal gweithdy ar Wastraff ac ailgylchu i roi cyfle i holl Aelodau'r Cyngor ystyried yr opsiynau ar gyfer Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref, yr amrywiaeth a math o ailgylchu, a sut i gyfathrebu â'r cyhoedd yn y ffordd orau. Roeddem hefyd yn gallu gweld un o'r cerbydau casglu newydd a ddaeth i Neuadd y Sir a rhoi cynnig ar roi gwastraff ailgylchu yn y gwahanol adrannau. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cydnabod bod y mewnbwn cadarn gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd wedi annog y Cyngor i ailystyried a diwygio ei gynigion i resymoli arddull a lleoliad canolfannau ailgylchu gwastraff cartref yn Sir y Fflint.

Yng nghyfarfod mis Tachwedd, cawsom ddiweddariad ar gynnydd a wnaed gyda'r Cynllun Gweithredu Ynni Adnewyddadwy. Mae'r Cynllun wedi'i ddatblygu i gynyddu cyfleoedd cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd cynhyrchu ynni carbon isel ac adnewyddadwy ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor. Yn dilyn y cyfarfod, aeth y pwyllgor ar ymweliad safle i'r Safle Tirlenwi Safonol i weld gosodiadau Solar Ffotofoltäig. Dywedwyd wrth Aelodau am yr arbedion sylweddol sydd i'w hennill o'r cysylltiad i Safle Brookhill i ddarparu trydan i Ddepo Alltami ac i'r fflyd cerbydau trydan arfaethedig o

bosibl. Dywedwyd wrthym hefyd am y cyfleoedd i ddatblygu ardaloedd biomas drwy gyllid grant. Roedd Aelodau'n falch bod yr heriau gyda'r ddau brosiect wedi'u goresgyn. Mae'r Pwyllgor hefyd yn parhau i gael adroddiadau perfformiad chwarterol i fonitro cynllun Gwella'r Cyngor gan alluogi'r pwyllgor i gyflawni eu rôl craffu o ran monitro perfformiad. Un o'r meysydd pryder a godwyd gan y Pwyllgor fu'r diffyg cynnydd o ran Cynllun Amddiffyn Rhag Llifogydd yr Wyddgrug ac effaith bosibl y newidiadau i'r Grant Amgylchedd Sengl gan Lywodraeth Cymru.

Fel Pwyllgor rydym wedi bod yn adolygu effaith newidiadau gwasanaeth yn dilyn gweithredu modelau gweithredu newydd ac adolygiadau o adnoddau tîm, yn unol ag egwyddorion dylunio sefydliadol y Cyngor a darpariaeth gwasanaeth wedi'i foderneiddio. Roedd y Pwyllgor yn ymwneud yn weithredol â phroses cynllunio'r gyllideb a chynhaliwyd Gweithdai Aelodau a sesiynau galw heibio cyn ystyried hyn yn ein cyfarfod cyllideb ym mis Ionawr. Mae rhai o'r meysydd a gafodd eu hystyried wedi cynnwys: - yr adolygiad 12 mis o Strategaeth Parcio Ceir y Cyngor, y Polisi Archwilio Priffyrdd a Meysydd Parcio diwygiedig, cam olaf yr Adolygiad o Orchmynion Terfynau Cyflymder Presennol ar Rwydweithiau Priffyrdd y Cyngor a gwelliannau proses arfaethedig ar gyfer unrhyw newidiadau i orchmynion terfynau cyflymder yn y dyfodol.

Gwnaeth y grŵp Tasg a Gorffen DNA Cŵn gyflwyno cynigion o ran cynllun peilot DNA cŵn a chyflwyno Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn. Gwahoddwyd pob Aelod i weithdy Craffu ar 5 Ionawr 2017 i gael barn Aelodau cyn ystyried hyn yn y pwyllgor Craffu ar 11 Ionawr. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen DNA Cŵn, nid oeddent yn argymhell bod yr Awdurdod yn bwrw ymlaen â Chynllun DNA Cŵn yn Sir y Fflint ar hyn o bryd. Gwnaeth y pwyllgor groesawu gweithrediad arfaethedig Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn ar gyfer troseddau penodol ar ddosbarthiadau dynodedig o fannau agored ac argymhellodd bod y Cabinet yn datblygu'r gweithrediad cyn mis Hydref 2017.

Mae diweddariadau ar gynnydd gyda Phrosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru wedi'u darparu ac yn dilyn cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr achos busnes terfynol, roedd gweithrediadau ar y trywydd iawn i ddechrau yn 2018/19.

## **Y Cyngorydd Raymond Hughes**

Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd

## **PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU NEWID SEFYDLIADOL**



**Cadeirydd  
Y Cynghorydd Brian Dunn**



**Is-Gadeirydd  
Y Cynghorydd Chris Dolphin**

### **Cylch gorchwyl a ffyrdd o weithio**

Y ffocws ar gyfer y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol yw'r angen am newidiadau sylfaenol i'r ffordd mae'r Awdurdod yn cyflawni rhai o'i swyddogaethau. Yn ystod y flwyddyn, mewn gwaith y Pwyllgor wedi canolbwyntio ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol a chreu Modelau Darparu Amgen. Yn ogystal â chyfarfod yn Neuadd y Sir, mae'r Pwyllgor wedi cynnal cyfarfodydd yng Nghanolfan Hamdden Treffynnon, Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy a Cambrian Aquatics, hen Bwll Nofio Cei Connah.

### **Trosglwyddo Asedau Cymunedol**

Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu gyda chymunedau i wneud arbedion effeithlonrwydd cyllideb drwy drosglwyddo asedau cymunedol. Mae'r Trosglwyddo wedi amrywio o lyfrgelloedd lleol i gyfleusterau mawr fel Pwll Nofio Cei Connah (sef Cambrian Aquatics bellach) a Chanolfan Hamdden Treffynnon.

Mae darnau llwyddiannus o waith wedi cynnwys y canlynol:

Trosglwyddo Ased Cymunedol Llyfrgell Mancot;  
Trosglwyddo Ased Cymunedol Canolfan Gymunedol a Llyfrgell Mynydd Isa i Gaffi Isa;  
Trosglwyddo Ased Cymunedol Llyfrgell yr Hob i Ysgol Castell Alun a Chyfeillion Llyfrgell Gymunedol yr Hob;  
Adeoli stoc llyfrau a chyfrifiaduron yn Saltney i'r ganolfan ieuencid a chymunedol.

Mae prosiectau o'r maint hwn wedi arwain at y Pwyllgor yn ystyried amcangyfrifon ariannol, gwerthuso effeithiolrwydd o ran ymgysylltu ac ymgynghori â staff, gwybodaeth am y cynllun pensiwn a chyfathrebu gyda chynghorau tref a chymuned. Fel rhan o resymoli asedau, mae'r llyfrgell yn Nhreffynnon wedi'i symud i'r Ganolfan Hamdden cyn trosglwyddo a chaiff incwm rhenti ei dalu i'r Ganolfan Hamdden. Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi faint o gydweithredu a fu gyda Chyngor Tref Treffynnon yn ystod y broses hon. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at waith parhaus gydag ymddiriedolwyr y Ganolfan Hamdden.

Trwy gydol proses drosglwyddo Pwll Nofio Cei Connah i Cambrian Aquatics, roedd y Pwyllgor yn rhan ohoni (hwn oedd y Trosglwyddo Asedau Cymunedol mawr cyntaf). Cafodd y pwyllgor adroddiadau cynnydd a rhoddodd sylwadau arnynt. Bu cynnydd cadarn o ran y gweithrediad newydd gyda rhaglen recriwtio ar gyfer y staff gofynnol, cysylltiadau gydag ysgolion cynradd yn cael eu sefydlu, targedau cymunedol yn cael eu gosod a rhagorwyd arnynt. Er cydnabyddir bod heriau o'n blaenau yn gyffredinol, mae'r gwasanaeth yn tyfu ac mae bywiogrwydd newydd iddo. Gwnaeth y Pwyllgor gynnal cyfarfod yn Cambrian Aquatics, a chafodd yr Aelodau daith o amgylch y cyfleuster.

### **Modelau Darparu Amgen**

Gofal Cymdeithasol – Gofal Dydd a Chyfleoedd Gwaith Anabledd Dysgu – Cafodd proses gaffael ysgafn ei dylunio, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o fudd-ddeiliaid yn y broses. Rhagwelwyd byddai gweithrediad ar amser gyda dyddiad dechrau o fis Ebrill 2017. Nododd y Pwyllgor gynnydd a wnaed a rhoddodd sylwadau ar broses gaffael a gynlluniwyd a hefyd ymgysylltu â budd-ddeiliaid.

Mae adleoli gwasanaethau llyfrgell i lyfrgell newydd yng Nghanolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy a ariennir gan gymorth grant Llywodraeth Cymru yn enghraifft arall o 'ddarpariaeth amgen'. Roedd hyn yn disodli'r hen lyfrgelloedd ym Mhenarlâg, Mancot a Queensferry. Mae'r llyfrgell newydd wedi manteisio o oriau agor hirach (y tu allan i 'oriau staff', gall defnyddwyr llyfrgell ddefnyddio'r cyfleuster hunanwasanaeth).

### **Bailey Hill – Datblygiadau Cronfa Dreftadaeth y Loteri**

Mae'r Pwyllgor wedi dysgu bod hwn yn brosiect sylweddol i wella amgylchedd treftadaeth y Castell Mwnt a Beili yn Bailey Hill yn yr Wyddgrug mewn partneriaeth gyda Chyngor Tref yr Wyddgrug a Grŵp Cyfeillion Bailey Hill. Cwblhawyd cais datblygu cam 1 llwyddiannus am £0.44m ym mis Gorffennaf 2016 ac ar ôl gwaith helaeth ar y safle, rhagwelir y bydd y cais cam 2 yn cael ei gyflwyno ar ddechrau 2018. Mae'r gwaith hwn yn barhaus ac mae arian cyfatebol yn allweddol i'w lwyddiant a bydd yn diogelu'r safle treftadaeth lleol hwn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn yr Wyddgrug.

### **Y Cyngorydd Brian Dunn**

Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol

## **PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL**



**Cadeirydd  
Y Cynghorydd Carol Ellis**



**Is-Gadeirydd  
Y Cynghorydd Andy Dunbobbin**

Mae'r Pwyllgor wedi cael blwyddyn brysur arall ac mae wedi craffu ar amrywiaeth eang o bynciau. Mae monitro perfformiad yn parhau i fod yn rhan annatod o'n gwaith ac rydym yn falch ein bod wedi croesawu cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, y Gwasanaeth Ambiwlans a Chyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint i'n cyfarfodydd Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Dyma grynodedeb o rai o'r pynciau mae'r pwyllgor wedi'u hystyried dros y 12 mis diwethaf. Mae rhestr lawn o bynciau yn Atodiad 1 yr adroddiad.

### **GWASANAETHAU CEFNOGI IECHYD MEDDWL A GWASANAETHAU CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU YN SIR Y FFLINT**

Roeddem wrth ein bodd o glywed bod Rhian Evans, Rheolwr Tîm Gwasanaethau Iechyd Meddwl, wedi ei chynabod am arddangos arweinyddiaeth rhagorol trwy ennill y wobr "Arweinyddiaeth yn y Sector Cyhoeddus", a noddwyd gan Academi Cymru yng Ngwobrau Arwain Cymru, ar y cyd â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd. Gwnaeth Rhian ddatblygu a rheoli pontio Double Click o gael ei redeg gan Sir y Fflint i fod yn Fenter Gymdeithasol annibynnol sy'n darparu cyflogaeth i bobl sy'n rheol materion iechyd meddwl. Mae'r Pwyllgor wedi cymryd rôl weithredol yn y broses bontio ac roeddent wrth eu bodd o glywed bod y beirniaid wedi canmol Rhian am fod yn enghraifft anhygoel o dalent ac arweinyddiaeth sydd wedi gwneud cyfraniad go iawn i economi Cymru.

Rhoddodd Swyddogion ddiweddariad ar dri phrif edefyn y Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl – y Tîm Cymorth Dwys, y Tîm Byw yn y Gymuned a Chymorth Canolig, a'r Tîm Galwedigaeth a Chyflogaeth. Gwnaethant ddangos sut mae'r tri maes yn cefnogi adferiad unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl i'w helpu i adeiladu bywydau ystyrlon i'w hunain a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn fach o glywed bod nodau cefnogaeth unigol yn 2015/16 wedi'u bodloni'n llawn neu'n rhannol ar gyfer y mwyafrif helaeth o bobl a gaiff eu cefnogi gan y gwasanaeth.

### **Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion**

Cawsom ddiweddariad ar nifer y cwynion a gafwyd gan Wasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Phlant, y gwasanaethau a gafodd gwynion, a'r canlyniadau a'r gwersi a ddysgwyd. Fel Cadeirydd, gofynnais fod gwybodaeth yn cael ei darparu i'r Pwyllgor am

nifer y defnyddwyr gwasanaeth yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a Phlant i benderfynu ar gymhareb y cwynion a gafwyd o gymharu â nifer y defnyddwyr gwasanaeth. Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad ac awgrymodd y dylid rhoi proffil uwch i ganmoliaethau mewn adroddiadau yn y dyfodol. Gwnaeth y Swyddog Cwynion gytuno i ddarparu atodiad ychwanegol i adroddiadau'r dyfodol i ddarparu rhagor o wybodaeth am ganmoliaethau a gafwyd. Caiff pob cwyn ei hadolygu i ddod â gwybodaeth ynghyd am ansawdd cyffredinol gwasanaethau i nodi unrhyw dueddiadau a champau gweithredu gofynnol gan gynnwys unrhyw wersi a ddysgwyd i osgoi materion tebyg rhag codi eto. Mae'r dull hwn yn rhoi sicrwydd i Aelodau bod ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i breswylwyr Sir y Fflint yn dal i fod yn dda.

### **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Yng nghyfarfod mis Mehefin, gwnaethom wahodd cynrychiolwyr o Ymddiriedolaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i roi diweddariadau i ni. Adroddodd Geoff Lang, Cyfarwyddwr Gweithredol BIPBC fod gwaith yn mynd rhagddo o ran y mesurau arbennig a adroddwyd ac roedd nifer o benodiadau newydd wedi'u gwneud ar lefel uwch yn yr Ymddiriedolaeth. Cyflwynwyd Mr Rob Smith, Cyfarwyddwr Ardal (Dwyrain) i'r Pwyllgor i roi diweddariad ar ddarpariaeth gwasanaethau iechyd lleol i breswylwyr Sir y Fflint. Pwysleisiodd yr angen i ganolbwyntio ar ddatblygiad gwasanaethau iechyd cymunedol a chyfeiriodd at y gwaith partneriaeth sy'n digwydd yn Sir y Fflint. Cyfeiriodd hefyd at yr angen i sicrhau nad oedd pobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty yn ddiangen neu yn aros yn hirach na bod angen a dywedodd am broblemau chapasiti a galw ar wasanaethau ysbyty. Dywedodd fod angen am ofal o ansawdd uchel a rhagor o fynediad i wasanaethau Meddyg Teulu a soniodd am y gwelliant cyffredinol o ran gofal sylfaenol. Rhoddodd Karl Hughes ddiweddariad o safbwynt Gwasanaethau Ambiwlans Cymru o ran mesurau arbennig. Dywedodd fod 3 cherbyd newydd wedi'u prynu yn ddiweddar. Dywedwyd wrthym fod y pwyslais ar ansawdd a chysonder gofal i bobl pan mae ei angen arnynt.

### **Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint**

Croesawodd y Pwyllgor Mrs Anne Woods, Prif Swyddog, Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, a roddodd ddiweddariad i ni am y gweithgarwch gofal cymdeithasol sy'n cael ei wneud gan drydydd sector Sir y Fflint ar hyn o bryd. Amlinellodd rôl hanfodol y sector gwirfoddol a chymunedol o ran hybu iechyd a lles. Pwysleisiodd fel oedd Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint yn bartneriaid gweithredol mewn partneriaethau lleol gan gynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a sut roedd Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint yn cefnogi dysgu a datblygu gwasanaethau gwirfoddol a gwirfoddolwyr ar draws Sir y Fflint. Croesawodd y Pwyllgor y gwaith a wnaed gan y trydydd sector ar ran preswylwyr Sir y Fflint a chytunodd i adolygu'r gweithgarwch gofal cymdeithasol yn y trydydd sector yn Sir y Fflint bob blwyddyn.

## **Gwasanaethau Dementia**

Eglurodd Luke Pickering-Jones, Swyddog Cynllunio a Datblygu y gwaith sy'n cael ei wneud i helpu pobl i fyw yn dda gyda Dementia ar draws Sir y Fflint. Pwysleisiodd bwysigrwydd cefnogi aelodau'r teulu sy'n gofalu am rai annwyl gyda Dementia hefyd. Cawsom drosolwg o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan gydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i wella amseroldeb diagnosis yng Nghlinigau Cof Sir y Fflint, y gwelliannau i ofal cleifion mewnol mewn Ysbytai Cymunedol i bobl gyda dementia a datblygiad llwybrau arbenigol i wasanaethau i bobl â gwahanol ffurfiau ar ddementia. Clywsom am y nifer o fentrau cymunedol ar draws Sir y Fflint sy'n cefnogi pobl gyda Dementia i aros yn ddiogel ac annibynnol yn eu cymunedau lleol a chynnal cysylltiadau a pherthnasoedd cymdeithasol pwysig. Mae creu cymunedau sy'n gyfeillgar i ddementia wedi bod yn gadarnhaol drwy ymgysylltu â phreswylwyr a busnesau lleol.

Pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd y gwaith a wneir gan wirfoddolwyr ac arwyddocâd cymunedau eglwys a chapel o ran ffurfio canolfannau cymunedol cryf. Croesawodd Aelodau lwyddiant parhaus y mentrau Caffi Dementia ar draws Sir y Fflint.

## **Ymweliadau Rota**

Mae Aelodau'r Pwyllgor hefyd yn cynnal Ymweliadau Rota sy'n rhoi cyfle i ymweld â sefydliadau gofal cymdeithasol ac sy'n canolbwyntio ar les defnyddwyr gwasanaeth.

## **Y Cynghorydd Carol Ellis**

Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol



**Atodiad 1**  
**Aelodaeth Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu 2016/17**

<u><b>Cymuned a Menter</b></u>	<u><b>Adnoddau Corfforaethol</b></u>
<p><b>Cynghorydd Ron Hampson (Cadeirydd)</b> Cynghorydd David Cox Cynghorydd Paul Cunningham Cynghorydd Peter Curtis Cynghorydd Ron Davies Cynghorydd Rosetta Dolphin Cynghorydd Ian Dunbar Cynghorydd Jim Falshaw (<i>o fis Gorffennaf i fis Rhagfyr</i>) Cynghorydd Alison Halford (<i>o fis Mai i fis Gorffennaf</i>) <b>Cynghorydd George Hardcastle, (Is-Gadeirydd)</b> Cynghorydd Ray Hughes Cynghorydd Hilary Isherwood (<i>o fis Gorffennaf</i>) Cynghorydd Sara Parker Cynghorydd Mike Reece Cynghorydd Gareth Roberts Cynghorydd David Roney</p>	<p><b>Cynghorydd Clive Carver (Cadeirydd)</b> Cynghorydd Marion Bateman Cynghorydd Paul Cunningham Cynghorydd Peter Curtis Cynghorydd Andy Dunbobbin Cynghorydd Robin Guest Cynghorydd Ron Hampson Cynghorydd Ray Hughes Cynghorydd Richard Jones Cynghorydd Brian Lloyd Cynghorydd Vicky Perfect, Cynghorydd Paul Shotton Cynghorydd Ian Smith Cynghorydd Nigel Steele-Mortimer <b>Cynghorydd Arnold Woolley (Is-Gadeirydd)</b></p>
<p><u><b>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid</b></u></p> <p><b>Cynghorydd Ian Roberts (Cadeirydd)</b> Cynghorydd Marion Bateman Cynghorydd Paul Cunningham Cynghorydd Peter Curtis Cynghorydd Adele Davies-Cooke Cynghorydd Andy Dunbobbin Cynghorydd David Healey Cynghorydd Colin Legg Cynghorydd Phil Lightfoot Cynghorydd Dave Mackie Cynghorydd Nancy Matthews Cynghorydd Vicky Perfect Cynghorydd Nigel Steele-Mortimer Cynghorydd Carolyn Thomas Cynghorydd David Williams</p> <p><b>Aelodau Cyfetholedig:</b> Janine Beggan <b>David Hytch (Is-Gadeirydd)</b> Rebecca Stark Bernard Stuart Parch. John Thelwell Lynn Bartlett</p>	<p><u><b>Yr Amgylchedd</b></u></p> <p><b>Cynghorydd Raymond Hughes (Cadeirydd)</b> Cynghorydd Haydn Bateman Cynghorydd Glenys Diskin Cynghorydd Chris Dolphin Cynghorydd Ian Dunbar <b>Cynghorydd David Evans (Is-Gadeirydd)</b> Cynghorydd Veronica Gay, Cynghorydd Alison Halford Cynghorydd Cindy Hinds Cynghorydd Colin Legg Cynghorydd Brian Lloyd Cynghorydd Richard Lloyd Cynghorydd Nancy Matthews (<i>o fis Mai i fis Tachwedd</i>) Cynghorydd Ann Minshull Cynghorydd Sara Parker (<i>o fis Tachwedd i fis Mai</i>) Cynghorydd Paul Shotton</p>

### Newid Sefydliadol

#### **Cynghorydd Brian Dunn (Cadeirydd)**

Cynghorydd Clive Carver  
Cynghorydd Glenys Diskin

#### **Cynghorydd Chris Dolphin (Is-Gadeirydd)**

Cynghorydd Ian Dunbar (*o fis Mai i fis Tachwedd*)  
Cynghorydd Andy Dunbobbin  
Cynghorydd Robin Guest  
Cynghorydd Ron Hampson  
Cynghorydd Brian Lloyd  
Cynghorydd Dave Mackie  
Cynghorydd Mike Reece  
Cynghorydd Tony Sharps  
Cynghorydd Paul Shotton  
Cynghorydd Nigel Steele-Mortimer  
Cynghorydd Carolyn Thomas  
Cynghorydd David Wisinger (*o fis Tachwedd i fis Mai*)

### Iechyd a Gofal Cymdeithasol

#### **Cynghorydd Carol Ellis (Cadeirydd)**

Cynghorydd Paul Cunningham (*o fis Gorffennaf*)  
Cynghorydd Adele Davies-Cooke

#### **Cynghorydd Andy Dunbobbin (Is-Gadeirydd)**

Cynghorydd Veronica Gay  
Cynghorydd David Healey  
Cynghorydd Cindy Hinds  
Cynghorydd Ray Hughes (*o fis Mehefin*)  
Cynghorydd Hilary Isherwood (*o fis Mai i fis Mehefin*)  
Cynghorydd Brian Lloyd (*o fis Mai i fis Mehefin*)  
Cynghorydd Mike Lowe  
Cynghorydd David Mackie  
Cynghorydd Hilary McGuill  
Cynghorydd Mike Reece  
Cynghorydd Ian Smith  
Cynghorydd Carolyn Thomas (*o fis Mai i fis Gorffennaf*)  
Cynghorydd David Wisinger  
Cynghorydd Matt Wright (*o fis Mehefin*)

### Gweithdai a Seminarau

**8 Gorffennaf 2016** – Sesiwn Briffio Aelodau – Diwygio Lles a Chredyd Cynhwysol

**12 a 13 Medi 2016**- Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Asesiadau Effaith ar yr Iaith Gymraeg

**11 Hydref 2016** – Gweithdy Holl Aelodau ar Welliannau i'r Gwasanaeth Ailgylchu Gwastraff a diweddariad ar Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref

**16 Rhagfyr 2016** – Gweithdy Holl Aelodau ar Strategaeth Ddigidol

**5 Ionawr 2017** – Gweithdy Holl Aelodau ar Orchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus, Rheoli Cŵn, Baw Cŵn a DNA

### **PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNED A MENTER**

8 Mehefin 2016  
13 Gorffennaf 2016  
19 Hydref 2016  
23 Tachwedd 2016

15 Rhagfyr 2016  
23 Ionawr 2017  
1 Chwefror 2017  
8 Mawrth 2017 (Galw i mewn)

Gweledigaeth a Strategaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru  
Adroddiadau Monitro Cynllun Gwella Chwarterol  
Gosod Sylfaen Treth y Cyngor ar Gyfer 2017-18

Rhaglenni Adfywio  
 Prynu Eiddo Hawl i Brynu'r Cyngor yn Ôl  
 Adolygiad Tai Gwarchod  
 Cyllideb Cyfrif Refeniw Tai Drafft 2017/18 a Rhaglen Gyfalaf 2017/18  
 Ôl-ddyledion Rhent Tai  
 Polisi Taliadau Adbryniad Ecwiti a Rennir a Symiau Cymudol  
 Diweddariad ar Weithrediad Un Llwybr Mynediad at Dai (ULIMaD)  
 Cynllun Busnes NEW Homes 2016-21  
 Cynllun Glannau Dyfrdwy (galw i mewn)

## PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL

12 Mai 2016	10 Tachwedd 2016
16 Mehefin 2016	30 Tachwedd 2016 (Cyfarfod arbennig)
14 Gorffennaf 2016	8 Rhagfyr 2018
15 Medi 2016	12 Ionawr 2017
28 Medi 2016	9 Chwefror 2017
13 Hydref 2016	9 Mawrth 2017

Cronfa Waddol Gymunedol – Adroddiad Blynyddol  
 Adroddiadau Monitro Cynllun Gwella 2016/17  
 Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2016/17- 2018/19 a Chyllideb Refeniw Cronfa'r Cyngor 2017/18  
 Defnyddio Gweithwyr Asiantaeth  
 Adroddiadau Monitro Cyllideb Refeniw Misol  
 Cyllideb Refeniw Cronfa'r Cyngor 2017/18  
 Cloi Prosiect ar Adolygiad o Weinyddiaeth Gorfforaethol  
 Strwythur Sefydliad mewn Llywodraethu  
 Adolygu Swyddogaethau Gweinyddol Corfforaethol  
 Adroddiad Perfformiad 2015/16 a Chynllun Gwella 2015/16 Cynnydd Diwedd Blwyddyn  
 Gwerthuso Perfformiad  
 Adolygiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol  
 Adroddiad Gwelliant Blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru  
 Cyllideb Refeniw Cronfa'r Cyngor 2017/18 Camau Un, Dau a Thri (Strategaeth Derfynol)  
 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint  
 Adroddiad Gwybodaeth Gweithlu Chwarterol – Chwarter 1 2016/17  
 Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru  
 Strategaeth Gaffael  
 Comisiynydd Heddlu a Throsedd Cymru Gogledd Cymru (Cyflwyniad)  
 Strategaeth Pobl 2016-2019  
 Strategaeth Ddigidol  
 Datblygu Rhaglen Gyfalaf 2017/18 – 2019/20  
 Diogelu Corfforaethol  
 Safonau Iaith Gymraeg  
 Heddlu Gogledd Cymru – Cyflwyniad Troseddau Seibr  
 Strategaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid  
 Amcanion Lles y Cyngor  
 Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Wydnwch Ariannol: Cynllunio Arbedion: Ymateb y Cyngor

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG AC IEUENCTID**

9 Mehefin 2016  
7 Gorffennaf 2016  
30 Gorffennaf 2016  
13 Hydref 2016  
17 Tachwedd 2016

15 Rhagfyr 2016  
19 Ionawr 2017  
2 Chwefror 2017  
16 Mawrth 2017

Deilliannau Dysgu  
Sgiliau Bywyd a Chynnydd  
Gwasanaeth Effeithlonrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE)  
Cyllideb Portffolio Addysg ac Ieuencid 2017/18  
Dysgu o'r Grŵp Monitro Perfformiad Ysgol  
Cynllun Gwella 2015/16 Cynnydd Diwedd Blwyddyn  
Adroddiad Perfformiad 2015/16  
Diweddariad Moderneiddio Ysgolion  
Balansau Ysgolion  
Adroddiadau Monitro Cynllun Gwella Chwarterol 2016/17  
Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn  
Gwasanaeth Cyngori Cymraeg  
Cynnydd 14-19  
Gwasanaeth Prydau Ysgol  
Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg  
Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol  
Diffyg Gweithlu Addysg Medrus  
Hunanwerthuso Gwasanaethau Addysg

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU YR AMGYLCHEDD**

11 Mai 2016  
15 Mehefin 2016  
19 Gorffennaf 2016  
14 Medi 2016

2 Tachwedd 2016  
7 Rhagfyr 2016  
11 Ionawr 2017  
8 Mawrth 2017

Cynllun Gwella 2016/17  
Gorfodaeth Cynllunio  
Gorfodaeth Amgylcheddol  
Adolygiad o Bolisi Casglu Gwastraff  
Adroddiad Cynnydd ar Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy  
Adolygiad 12 Mis o Strategaeth Parcio Ceir y Cyngor  
Diweddariad ar Brosiect Gwastraff Gogledd Cymru  
Cyllideb Refeniw Cronfa'r Cyngor 2017/18  
Adolygiad o Ddarpariaeth Canolfannau Ailgyrchu Gwastraff Cartref  
Adrodd ar Berfformiad 2015/16  
Cynllun Gwella 2015/16 Cynnydd Diwedd Blwyddyn  
Polisi Archwilio Priffyrdd a Meysydd Parcio

Cam olaf yr Adolygiad o Orchmynion Terfynau Cyflymder Presennol ar Rwydweithiau Priffyrdd y Cyngor a Gwelliannau Proses Arfaethedig ar gyfer unrhyw Newidiadau i Orchmynion Terfynau Cyflymder yn y Dyfodol  
 Adolygiad Gwasanaeth Hawliau Tramwy  
 Diweddariad Cynllun Gweithredu Ynni Adnewyddadwy  
 Adroddiadau Monitro Cynllun Gwella Chwarterol 2016/17  
 Cynllun Peilot DNA Cŵn a Chyflwyno Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn  
 Prosiectau Cydweithredol Safonau Masnach

### **PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU NEWID SEFYDLIADOL**

11 Mai 2016 15 Mehefin 2016 19 Gorffennaf 2016 14 Medi 2016	2 Tachwedd 2016 7 Rhagfyr 2016 11 Ionawr 2017 8 Mawrth 2017
--	--

Cyllideb Refeniw Cronfa'r Cyngor 2017/18 (Ar gyfer Newid Sefydliadol)  
 Cynlluniau ar gyfer Gwasanaethau Eiddo, Ystadau a Rheoli Cyfleusterau  
 Cynlluniau ar gyfer Gwasanaethau Hamdden, Llyfrgelloedd a Diwylliannol  
 Adrodd ar Berfformiad 2015/16  
 Cynllun Gwella 2015/16 Cynnydd Diwedd Blwyddyn  
 Trosglwyddo Asedau Cymunedol Canolfan Hamdden Treffynnon  
 Modelau Darparu Amgen (Gofal Cymdeithasol, Gofal Dydd a Chyfleoedd Gwaith)  
 Gwydnwch Cymunedol  
 Amgueddfeydd ac Archifau  
 Adroddiadau Monitro Cynllun Gwella Chwarterol  
 Modelau Darparu Amgen – Cynnydd Cynllun Busnes Hamdden a Llyfrgelloedd  
 Modelau Darparu Amgen – Cynnydd Cynllun Busnes Rheoli Cyfleusterau  
 Trosglwyddo Asedau Cymunedol – Adolygiad Cynnydd o Gyllid Allanol  
 Model Darparu Amgen ar gyfer Darpariaeth Gofal Plant  
 Diweddariad ar y Fforwm Ardaloedd Chwarae, Cynlluniau Chwarae a Chwarae Strategol  
 Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru : Adolygiad Perfformiad 2015/16  
 Bailey Hill – Datblygiadau Cronfa Dreftadaeth y Loteri  
 Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 6 Fframwaith 2017-20: Crynodeb o'r Fframwaith  
 Pwll Nofio Cei Connah: Cynllun Busnes Cambrian Aquatics 2016/18

### **PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL**

19 Mai 2016 9 Mehefin 2016 27 Mehefin 2016 21 Gorffennaf 2016 15 Medi 2016	20 Hydref 2016 24 Tachwedd 2016 13 Rhagfyr 2016 26 Ionawr 2017 2 Mawrth 2017
--	--

Cynllun Gwella 2016/17 (Iechyd a Gofal Cymdeithasol)  
 Ymweliadau Rota

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru  
Adroddiad Cynnydd ar Ddatblygiad Byrddau Diogelu Gogledd Cymru Ebrill 2016  
Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl a Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yn Sir y Fflint  
Cyllideb Refeniw Cronfa'r Cyngor 2017/18  
Fframwaith Adrodd Blynyddol y Cyngor  
Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion  
Diweddariad Strategaeth Rhianta a Maethu Corfforaethol  
Diweddariad Gwasanaeth Plant gan gynnwys Atgyfeiriadau Mynych mewn Gwasanaethau Plant  
Cynllun Gwella 2015/16 Cynnydd Diwedd Blwyddyn  
Adrodd ar Berfformiad 2015/16  
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint  
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru  
Adroddiadau Monitro Cynllun Gwella Chwarterol 2016/17  
Gwasanaethau Dementia  
Tîm o Amgylch y Teulu  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Cyflwyniad)  
Swyddogaeth a Phwrpas Tîmau Iechyd Meddwl Cymunedol Sir y Fflint  
Adroddiad Diweddarau Aseiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru  
Swyddogaeth a Phroses Oedi wrth Drosglwyddo Gofal o Leoliad Ysbyty  
Double Click  
Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol  
Adroddiad Sicrhau Ansawdd Gwasanaethau Plant

**CYMORTH SWYDDOGION TROSOLWG A CHRAFFU**

Mae'r gefnogaeth mae Trosolwg a Chraffu yn ei gael gan swyddogion ar draws y Cyngor yn hanfodol er mwyn sicrhau ei fod yn rhedeg yn llyfn ac effeithiol.

**CYMORTH TROSOLWG A CHRAFFU**

Y Tîm Craffu yw:-

- ❖ Robert Robins - Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd  
(yn bennaf yn cefnogi'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol)
- ❖ Margaret Parry-Jones – Hwylusydd Trosolwg a Chraffu  
(yn bennaf yn cefnogi'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol)
- ❖ Ceri Shotton – Hwylusydd Trosolwg a Chraffu  
(yn bennaf yn cefnogi'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymuned a Menter a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuencid)
- ❖ Janet Kelly – Swyddog Cymorth Gwasanaethau Democrataidd  
(yn cefnogi'r Tîm Trosolwg a Chraffu a grwpiau tasg a gorffen)

Mae'r tîm yn adnodd annibynnol sy'n cefnogi'r swyddogaeth graffu a'i aelodau:

Cynghori ar gyfeiriad strategol a datblygiad y swyddogaeth graffu;

- Cydlynu'r rhaglenni gwaith ar gyfer y chwe Phwyllgor Trosolwg a Chraffu;
- Cynghori, cefnogi a chynorthwyo i ddatblygu aelodau craffu;
- Cyflawni gwaith ymchwil a dadansoddi gwybodaeth i helpu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer adolygiadau;
- Cynhyrchu adroddiadau a chyflwyniadau ar ran Aelodau;
- Cynnig cyngor a chyfarwyddyd annibynnol o ran datblygiad polisi a rheoli perfformiad;
- Gweithredu fel pwynt cyswllt allweddol i Aelodau, swyddogion, sefydliadau allanol a'r cyhoedd o ran materion craffu; a hwyluso grwpiau tasg a gorffen